



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2006 Rhif 1387 (Cy.137)**

**2006 No. 1387 (W.137)**

**CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

**TOWN AND COUNTRY  
PLANNING, WALES**

Rheoliadau Cynllunio  
(Cyfarwyddiadau Diogelwch  
Gwladol a Chynrychiolwyr  
Penodedig) (Cymru) 2006

The Planning (National Security  
Directions and Appointed  
Representatives) (Wales)  
Regulations 2006

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

Mae adran 321 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") yn darparu bod pob ymchwiliad cynllunio i'w gynnal yn gyhoeddus ac eithrio i'r graddau y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") neu'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran tir yng Nghymru, yn cyfarwyddo fel arall y byddai'n groes i ddiogelwch gwladol ar sail buddiannau gwladol neu ddiogelwch mangroedd neu eiddo.

Section 321 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") provides that all planning inquiries are to be held in public except to the extent where, in relation to land in Wales, the National Assembly for Wales ("the National Assembly") or the Secretary of State otherwise direct that it would be contrary to national security on the grounds of national interest or the security of premises or property.

Mae adrannau 321 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p.5)) ("Deddf 2004") a 321B o Ddeddf 1990 yn gwneud darpariaeth i Gwnsler Cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") benodi personau ("cynrychiolwyr penodedig") i gynrychioli buddiannau unrhyw berson a gaiff ei atal rhag gwrandio neu archwilio unrhyw dystiolaeth mewn ymchwiliad lleol os rhoddir cyfarwyddyd adran 321 gan y Cynulliad Cenedlaethol neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Sections 321 (as amended by the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (c.5) ("the 2004 Act")) and 321B of the 1990 Act make provision for the Counsel General to the National Assembly for Wales ("the National Assembly") to appoint persons ("appointed representatives") to represent the interests of any person who will be prevented from hearing or inspecting any evidence at a local inquiry if a section 321 direction is given by the National Assembly or the Secretary of State.

Mae paragraffau 6, 6A ac 8 o Atodlen 3 i Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a pharagraffau 6, 6A ac 8 o'r Atodlen i Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 yn gwneud darpariaeth debyg mewn perthynas â'r Deddfau hynny.

Paragraphs 6, 6A and 8 of Schedule 3 to the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990 and paragraphs 6, 6A and 8 of the Schedule to the Planning (Hazardous Substances) Act 1990 make similar provision in respect of those Acts.

Yn rhinwedd y cofnodion ynghylch y Deddfau uchod yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) (fel y'i hamrywyr gan Orchymyn Cynulliad

By virtue of the entries for the above cited Acts in Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) (as varied by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2000 (S.I.2000/253) (W. 5) in the

Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S.2000/253) (Cy. 5) yn achos Deddf 1990), mae'r pŵer i roi cyfarwyddyd o dan y darpariaethau hynny o ran Cymru yn arferadwy gan naill ai'r Cynulliad Cenedlaethol neu'r Ysgrifennydd Gwladol ar yr un pryd. Yn y Rheoliadau hyn cyfeirir at y naill a'r llall fel "yr awdurdod cyfarwyddo".

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r weithdrefn sydd i'w dilyn gan yr awdurdod cyfarwyddo pan fydd yn ystyried a fydd yn rhoi cyfarwyddyd diogelwch gwladol. Mae'r darpariaethau hynny'n ymwneud â chyhoeddusrwydd (rheoliad 6), sylwadau ysgrifenedig (rheoliad 8), gwrandawriadau (rheoliadau 9 a 10) a hysbysiadau o benderfyniadau yr awdurdod cyfarwyddo (rheoliad 14).

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi hefyd swyddogaethau cynrychiolwyr penodedig (rheoliad 4).

Mae'r opsiynau ar gyfer trin achosion sy'n cynnwys materion diogelwch gwladol yn effeithio'n bennaf ar y llywodraeth ganolog ac ni fydd ganddynt unrhyw effaith ar gostau busnesau, elusennau, cyrff gwirfoddol na rhannau eraill o'r sector preifat. Ychydig iawn fydd y costau i'r llywodraeth ganolog. O ganlyniad nid oes asesiad llawn o effaith y Rheoliadau wedi'i baratoi ar gyfer yr offeryn hwn.

case of the 1990 Act), the power to give a direction under those provisions in relation to Wales is exercisable concurrently by either the National Assembly or the Secretary of State. In these Regulations they are each referred to as "the directing authority".

These Regulations make provision as to the procedure to be followed by the directing authority when it is considering whether to give a national security direction. Those provisions relate to publicity (regulation 6), written representations (regulation 8), hearings (regulations 9 and 10) and notification of the directing authority's decision (regulation 14).

These Regulations also set out the functions of appointed representatives (regulation 4).

The options for handling cases involving national security issues impact primarily on central government and have no impact on the costs of business, charities, voluntary bodies nor other parts of the private sector. The costs to central government will be minimal. A full regulatory impact assessment has consequently not been produced for this instrument.

2006 Rhif 1387 (Cy.137)

2005 No. 1387 (W.137)

CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRUTOWN AND COUNTRY  
PLANNING, WALESRheoliadau Cynllunio  
(Cyfarwyddiadau Diogelwch  
Gwladol a Chynrychiolwyr  
Penodedig) (Cymru) 2006The Planning (National Security  
Directions and Appointed  
Representatives) (Wales)  
Regulations 2006Wedi'u gwneud 23 Mai 2006  
Yn dod i rym 7 Mehefin 2006Made 23 May 2006  
Coming into force 7 June 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer ei bwerau o dan adran 321(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i haddaswyd gan adran 321B(3) o'r Ddeddf honno) (1), paragraff 6A(3) o Atodlen 3 i Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (fel y'i haddaswyd gan baragraff 8(3) o'r Atodlen honno)(2) a pharagraff 6A(3) o'r Atodlen i Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 (fel y'i haddaswyd gan baragraff 8(3) o'r Atodlen honno)(3), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwysu**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio (Cyfarwyddiadau Diogelwch Gwladol a Chynrychiolwyr Penodedig) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 7 Mehefin 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "yr awdurdod cyfarwyddo" ("*the directing authority*") yw'r Cynulliad Cenedlaethol neu, yn ôl y digwydd, yr Ysgrifennydd Gwladol;

ystyr "y brif Ddeddf" ("*the principal Act*") yw

- (1) 1990 p.8. Mewnosodwyd is-adrannau (5) i (12) o adran 321, ac adran 321B, gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5), adrannau 80(1) ac 81(1) yn y drefn honno.
- (2) 1990 p.9. Mewnosodwyd paragraffau 6A ac 8(3) gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, adrannau 80(3) ac 81(2) yn y drefn honno.
- (3) 1990 p.10. Mewnosodwyd paragraffau 6A ac 8(3) gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, adrannau 80(4) ac 81(3) yn y drefn honno.

The National Assembly for Wales ("the National Assembly"), in exercise of its powers under section 321(7) of the Town and Country Planning Act 1990 (as modified by section 321B(3) of that Act)(1), paragraph 6A(3) of Schedule 3 to the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990 (as modified by paragraph 8(3) of that Schedule)(2) and paragraph 6A(3) of the Schedule to the Planning (Hazardous Substances) Act 1990 (as modified by paragraph 8(3) of that Schedule) (3), makes the following Regulations:

**Title, commencement and application**

1.-(1) The title of these Regulations is the Planning (National Security Directions and Appointed Representatives) (Wales) Regulations 2006 and they come into force on 7 June 2006.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Interpretation**

2.-(1) In these Regulations-

"affected person" ("*person yr effeithir arno*") means the person who will be prevented, by direction, from hearing or inspecting closed evidence at a local inquiry if a direction is given;

- (1) 1990 c.8. Subsections (5) to (12) of section 321, and section 321B, were inserted by the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (c. 5), sections 80(1) and 81(1) respectively.
- (2) 1990 c.9. Paragraphs 6A and 8(3) were inserted by the Planning and Compulsory Purchase Act 2004, sections 80(3) and 81(2) respectively.
- (3) 1990 c.10. Paragraphs 6A and 8(3) were inserted by the Planning and Compulsory Purchase Act 2004, sections 80(4) and 81(3) respectively.

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

ystyr "cyfarwyddyd" ("*direction*") yw cyfarwyddyd a roddir gan yr awdurdod cyfarwyddo o dan-

- (a) adran 321(3) o'r brif Ddeddf;
- (b) paragraff 6(6) o Atodlen 3 i'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig; neu
- (c) paragraff 6(6) o'r Atodlen i'r Ddeddf Sylweddau Peryglus;

mae i "cyfathrebu electronig" a "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "*electronic communication*" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000(1);

ystyr "cynrychiolydd penodedig" ("*appointed representative*") yw person a benodir gan Gwnsler Cyffredinol y Cynulliad Cenedlaethol o dan-

- (a) adran 321(5) neu (6) o'r brif Ddeddf fel y'i haddaswyd gan adran 321B(2) o'r Ddeddf honno;
- (b) paragraff 6A(1) neu (2) o Atodlen 3 i'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig fel y'i haddaswyd gan baragraff 8(2) o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno; neu
- (c) paragraff 6A(1) neu (2) o'r Atodlen i'r Ddeddf Sylweddau Peryglus, fel y'i haddaswyd gan baragraff 8(2) o'r Atodlen i'r Ddeddf honno;

mae "dogfen" ("*document*") yn cynnwys ffotograff, map neu blân;

ystyr "y Ddeddf Adeiladau Rhestredig" ("*the Listed Buildings Act*") yw Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990;

ystyr "y Ddeddf Sylweddau Peryglus" ("*the Hazardous Substances Act*") yw Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990;

ystyr "y partiön" ("*the parties*") yw-

- (a) y person sy'n gwneud yr archiad am gyfarwyddyd; a
- (b) y cynrychiolydd penodedig;

ystyr "person yr effeithir arno" ("*affected person*") yw'r person a gaiff ei atal, drwy gyfarwyddyd, rhag gwranddo neu archwilio tystiolaeth gaeedig mewn ymchwiliad lleol os rhoddir cyfarwyddyd;

mae "sylwadau ysgrifenedig" ("*written representations*") yn cynnwys dogfennau ategol;

ystyr "tystiolaeth gaeedig" ("*closed evidence*") yw tystiolaeth sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd; ac

ystyr "tystiolaeth gaeedig bosibl" ("*potentially closed evidence*") yw tystiolaeth y mae archiad am gyfarwyddyd wedi'i wneud mewn perthynas â hi.

"appointed representative" ("*cynrychiolydd penodedig*") means a person appointed by the Counsel General to the National Assembly under-

- (a) section 321(5) or (6) of the principal Act as modified by section 321B(2) of that Act;
- (b) paragraph 6A(1) or (2) of Schedule 3 to the Listed Buildings Act as modified by paragraph 8(2) of Schedule 3 to that Act; or
- (c) paragraph 6A(1) or (2) of the Schedule to the Hazardous Substances Act, as modified by paragraph 8(2) of the Schedule to that Act;

"closed evidence" ("*tystiolaeth gaeedig*") means evidence which is subject to a direction;

"the directing authority" ("*yr awdurdod cyfarwyddo*") means the National Assembly or, as the case may be, the Secretary of State;

"direction" ("*cyfarwyddyd*") means a direction given by the directing authority under-

- (a) section 321(3) of the principal Act;
- (b) paragraph 6(6) of Schedule 3 to the Listed Buildings Act; or
- (c) paragraph 6(6) of the Schedule to the Hazardous Substances Act;

"document" ("*dogfen*") includes a photograph, map or plan;

"electronic communication" ("*cyfathrebu electronig*" and "*cyfathrebiad electronig*") has the meaning given in section 15(1) of the Electronic Communications Act 2000(1);

"the Hazardous Substances Act" ("*y Ddeddf Sylweddau Peryglus*") means the Planning (Hazardous Substances) Act 1990;

"the Listed Buildings Act" ("*y Ddeddf Adeiladau Rhestredig*") means the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990;

"the parties" ("*y partiön*") means-

- (a) the person making the request for a direction; and
- (b) the appointed representative;

"potentially closed evidence" ("*tystiolaeth gaeedig bosibl*") means evidence in respect of which a request for a direction has been made;

"the principal Act" ("*y brif Ddeddf*") means the Town and Country Planning Act 1990; and

"written representations" ("*sylwadau ysgrifenedig*") includes supporting documents.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ac mewn perthynas â defnyddio cyfathrebu electronig at unrhyw un o ddibenion y Rheoliadau hyn y gellir ei gyflawni'n electronig-

- (a) mae'r term "cyfeiriad" ("*address*") yn cynnwys unrhyw rif neu gyfeiriad a ddefnyddir at ddibenion cyfathrebu o'r fath;
- (b) mae cyfeiriadau at hysbysiadau, sylwadau neu ddogfennau eraill, neu at gopiâu o'r dogfennau hynny, yn cynnwys cyfeiriadau at y dogfennau hynny neu gopiâu ohonynt ar ffurf electronig.

(3) Mae paragraffau (4) i (8) yn gymwys pan fo cyfathrebiad electronig yn cael ei ddefnyddio gan berson er mwyn cyflawni unrhyw ofyniad yn y Rheoliadau hyn i roi unrhyw ddatganiad, hysbysiad neu ddogfen arall i unrhyw berson arall ("y derbynnnydd") neu i'w anfon neu i'w hanfon ato.

(4) Cymerir y bydd y gofyniad wedi'i gyflawni pan fo'r hysbysiad neu'r ddogfen arall a drosglwyddir drwy gyfrwng y cyfathrebiad electronig-

- (a) yn un y gall y derbynnnydd ei gyrchu neu ei chyrrchu;
- (b) yn ddarllenadwy ym mhob manylyn o bwys; ac
- (c) yn ddigon parhaol fel bod modd cyfeirio ato neu ati yn nes ymlaen.

(5) Ym mharagraff (4), ystyr "yn ddarllenadwy ym mhob manylyn o bwys" yw bod yr wybodaeth a geir yn yr hysbysiad neu'r ddogfen arall ar gael i'r derbynnnydd o leiaf i'r un graddau â phe bai wedi ei hanfon neu ei rhoi drwy gyfrwng dogfen ar ffurf brintiadwy.

(6) Os caiff y derbynnnydd y cyfathrebiad electronig y tu allan i'w oriau busnes, cymerir ei fod wedi'i gael ar y diwrnod gwaith nesaf; ac, at y diben hwn, ystyr "diwrnod gwaith" yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Wyl y Banc nac yn wyl gyhoeddus arall.

(7) Bydd gofyniad yn y Rheoliadau hyn i unrhyw ddogfen fod yn ysgrifenedig wedi'i gyflawni pan fo'r ddogfen honno yn bodloni'r meini prawf ym mharagraff (4), ac mae "ysgrifenedig" ac ymadroddion cytras i'w dehongli yn unol â hynny.

(8) Caniateir cydymffurfio â gofyniad yn y Rheoliadau hyn i anfon mwy nag un copi o ddatganiad neu ddogfen arall drwy anfon un copi yn unig o'r datganiad neu'r ddogfen arall o dan sylw a hynny ar ffurf electronig.

### **Y rheoliadau penodol sy'n gymwys mewn achosion penodol**

3.-(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys pan fo'r awdurdod cyfarwyddo yn ystyried rhoi neu pan fo wedi rhoi cyfarwyddyd o dan unrhyw un o'r darpariaethau canlynol-

(2) In these Regulations, and in relation to the use of electronic communications for any purpose of these Regulations which is capable of being effected electronically-

- (a) the expression "address" ("*cyfeiriad*") includes any number or address used for the purposes of such communications;
- (b) references to notices, representations or other documents, or to copies of such documents, include references to such documents or copies of them in electronic form.

(3) Paragraphs (4) to (8) apply where an electronic communication is used by a person for the purpose of fulfilling any requirement in these Regulations to give or send any statement, notice or other document to any other person ("the recipient").

(4) The requirement will be taken to be fulfilled where the notice or other document transmitted by means of the electronic communication is-

- (a) capable of being accessed by the recipient;
- (b) legible in all material respects; and
- (c) sufficiently permanent to be used for subsequent reference.

(5) In paragraph (4), "legible in all material respects" means that the information contained in the notice or other document is available to the recipient to no lesser extent than it would be if sent or given by means of a document in printed form.

(6) Where the electronic communication is received by the recipient outside the recipient's business hours, it will be taken to have been received on the next working day; and for this purpose "working day" means a day which is not a Saturday, Sunday, Bank Holiday or other public holiday.

(7) A requirement in these Regulations that any document should be in writing is fulfilled where that document meets the criteria in paragraph (4), and "written" and cognate expressions are to be construed accordingly.

(8) A requirement in these Regulations to send more than one copy of a statement or other document is complied with by sending one copy only of the statement or other document in question in electronic form.

### **Application of certain regulations in particular cases**

3.-(1) These Regulations apply in a case where the directing authority is considering giving or has given a direction under any of the following provisions-



- (a) adran 321(3) o'r brif Ddeddf;
- (b) paragraff 6(6) o Atodlen 3 i'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig; neu
- (c) paragraff 6(6) o'r Atodlen i'r Ddeddf Sylweddau Peryglus.

(2) Mae rheoliad 4 yn gymwys i bob cynrychiolydd penodedig.

(3) Mae rheoliadau 5 i 14 yn gymwys o ran achos lle mae cynrychiolydd penodedig wedi'i benodi o dan-

- (a) adran 321(5) o'r brif Ddeddf;
- (b) paragraff 6A(1) o Atodlen 3 i'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig; neu
- (c) paragraff 6A(1) o'r Atodlen i'r Ddeddf Sylweddau Peryglus.

### Swyddogaethau cynrychiolydd penodedig

4.-(1) Swyddogaeth gyntaf cynrychiolydd penodedig yw cynrychioli buddiannau'r person yr effeithir arno drwy wneud y canlynol-

- (a) derbyn cyfarwyddiadau gan y person yr effeithir arno cyn cael copïau o dystiolaeth gaeedig bosibl;
- (b) cyflwyno sylwadau ysgrifenedig ynghylch a ddylid rhoi cyfarwyddyd; ac
- (c) mewn perthynas â gwrandawriad a gynhelir yn unol â rheoliad 10-
  - (i) ymdrin â materion rhagarweiniol,
  - (ii) gwneud argymhellion, a
  - (iii) croesholi tystion.

(2) Ail swyddogaeth y cynrychiolydd penodedig yw cynrychioli buddiannau'r person yr effeithir arno drwy wneud y canlynol-

- (a) os penodwyd cynrychiolydd penodedig o dan-
  - (i) adran 321(6) o'r brif Ddeddf;
  - (ii) paragraff 6A(2) o Atodlen 3 i'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig; neu
  - (iii) paragraff 6A(2) o'r Atodlen i'r Ddeddf Sylweddau Peryglus,

derbyn cyfarwyddiadau gan y person yr effeithir arno cyn cael copïau o dystiolaeth gaeedig;

- (b) ymdrin â materion rhagarweiniol o ran tystiolaeth gaeedig mewn perthynas ag ymchwiliad lleol;
- (c) gwneud argymhellion neu groesholi tystion, o ran tystiolaeth gaeedig, mewn ymchwiliad lleol; ac
- (ch) bod yn bresennol mewn ymweliadau â safleoedd.

- (a) section 321(3) of the principal Act;
- (b) paragraph 6(6) of Schedule 3 to the Listed Buildings Act; or
- (c) paragraph 6(6) of the Schedule to the Hazardous Substances Act.

(2) Regulation 4 applies to all appointed representatives.

(3) Regulations 5 to 14 apply in relation to a case where an appointed representative has been appointed under-

- (a) section 321(5) of the principal Act;
- (b) paragraph 6A(1) of Schedule 3 to the Listed Buildings Act; or
- (c) paragraph 6A(1) of the Schedule to the Hazardous Substances Act.

### Functions of an appointed representative

4.-(1) The first function of an appointed representative is to represent the interests of the affected person by-

- (a) taking instructions from the affected person before receiving copies of potentially closed evidence;
- (b) making written representations as to whether a direction should be given; and
- (c) in respect of a hearing held in accordance with regulation 10-
  - (i) dealing with preliminary matters,
  - (ii) making submissions, and
  - (iii) cross-examining witnesses.

(2) The second function of an appointed representative is to represent the interests of the affected person by-

- (a) where the appointed representative has been appointed under-
  - (i) section 321(6) of the principal Act;
  - (ii) paragraph 6A(2) of Schedule 3 to the Listed Buildings Act; or
  - (iii) paragraph 6A(2) of the Schedule to the Hazardous Substances Act,

taking instructions from the affected person before receiving copies of closed evidence;

- (b) dealing with preliminary matters in relation to closed evidence in respect of a local inquiry;
- (c) making submissions or cross-examining witnesses, in relation to closed evidence, at a local inquiry; and
- (d) attending site visits.

(3) Trydedd swyddogaeth cynrychiolydd penodedig yw sicrhau bod y copïau o'r dystiolaeth gaeedig neu'r dystiolaeth gaeedig bosibl yn cael eu dychwelyd i'r person a'u darparodd cyn gynted ag y bo'n ymarferol -

- (a) ar ôl i'r awdurdod cyfarwyddo roi hysbysiad o dan reoliad 14 nad yw'n bwriadu rhoi cyfarwyddyd;
- (b) ar ôl i'r ymchwiliad lleol, y mae'r dystiolaeth gaeedig yn ymwneud ag ef, ddod i ben; neu
- (c) ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol hysbysu'r cynrychiolydd penodedig na fydd unrhyw ymchwiliad lleol, y mae'r dystiolaeth gaeedig yn ymwneud ag ef, yn cael ei gynnal,

p'un bynnag yw'r olaf.

(4) Pedwaredd swyddogaeth cynrychiolydd penodedig yw gwneud ceisiadau i'r llys ynghylch unrhyw un o swyddogaethau eraill y cynrychiolydd penodedig.

(5) At ddibenion unrhyw un neu rai o'r swyddogaethau, caiff y cynrychiolydd penodedig drafod unrhyw fater sy'n ymwneud â'r dystiolaeth gaeedig neu'r dystiolaeth gaeedig bosibl-

- (i) â'r person sydd wedi darparu'r dystiolaeth gaeedig neu'r dystiolaeth gaeedig bosibl i'r awdurdod cyfarwyddo, neu,
- (ii) â pherson a bennir yn y cyfarwyddyd, neu berson o unrhyw ddisgrifiad a bennir ynddo.

### **Cydnabod archiad am gyfarwyddyd**

5.-(1) Caiff unrhyw berson ofyn am gyfarwyddyd drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod cyfarwyddo i'r diben hwnnw.

(2) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael archiad am gyfarwyddyd, rhaid i'r awdurdod cyfarwyddo gydnabod mewn ysgrifenedig bod yr archiad wedi dod i law.

### **Cyhoeddusrwydd**

6.-(1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael archiad am gyfarwyddyd, rhaid i'r awdurdod cyfarwyddo roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod archiad wedi dod i law a hynny yn y modd a ragnodir gan y rheoliad hwn.

(2) Yn achos archiad sy'n ymwneud â chais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad-

- (a) sy'n gais Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol y mae datganiad amgylcheddol yn dod gydag ef;
- (b) nad yw'n cydweddu â darpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym yn yr ardal y mae'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef wedi'i leoli ynddi; neu

(3) The third function of an appointed representative is to ensure that the copies of the closed evidence or potentially closed evidence are returned to the person who supplied them as soon as practicable after-

- (a) the directing authority has given notice under regulation 14 that it does not intend to give a direction;
- (b) the local inquiry, to which the closed evidence relates, has ended; or
- (c) the National Assembly has notified the appointed representative that no local inquiry, to which the closed evidence relates, will be held,

whichever is the last.

(4) The fourth function of an appointed representative is to make applications to the Court in relation to any of the appointed representative's other functions.

(5) For the purposes of any of the functions, the appointed representative may discuss any matter relating to the closed evidence or potentially closed evidence with-

- (i) the person who has supplied the closed or potentially closed evidence to the directing authority, or,
- (ii) a person specified, or of any description specified, in the direction.

### **Acknowledgement of request for a direction**

5.-(1) Any person may request a direction by giving notice in writing to the directing authority to that effect.

(2) As soon as practicable after receiving a request for a direction, the directing authority must acknowledge receipt of the request in writing.

### **Publicity**

6.-(1) As soon as practicable after receiving a request for a direction, the fact that a request has been received must be publicised by the directing authority in the manner prescribed by this regulation.

(2) In the case of a request which relates to an application for planning permission for development which-

- (a) is an EIA application accompanied by an environmental statement;
- (b) does not accord with the provisions of the development plan in force in the area in which the land to which the application relates is situated; or

- (c) a fyddai'n effeithio ar hawl dramwy y mae Rhan 3 o'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(1) (hawliau tramwy cyhoeddus) yn gymwys iddi,

rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i'r archiad yn y modd a bennir ym mharagraff (3).

(3) Rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i archiad sy'n dod o dan baragraff (2) ("archiad paragraff (2)") gan roi hysbysiad-

- (a) drwy ei arddangos ar y safle mewn un man o leiaf ar neu wrth ymyl y tir y mae'r cais am ganiatâd cynllunio yn ymwneud ag ef am gyfnod nad yw'n llai na 2 wythnos; a
- (b) drwy hysbyseb leol am 2 wythnos yn olynol ac yn gyfoes â'r cyfnod hysbysu yn is-baragraff (a).

(4) Yn achos archiad am gyfarwyddyd nad yw'n archiad paragraff (2), os datblygiad mawr yw'r datblygiad arfaethedig y mae'r archiad yn ymwneud ag ef, rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i'r archiad gan roi hysbysiad-

- (a) drwy ei arddangos ar y safle mewn un man o leiaf ar neu wrth ymyl y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef am gyfnod nad yw'n llai na 2 wythnos neu drwy gyflwyno'r hysbysiad i unrhyw berchennog neu feddiannydd cyffiniol; a
- (b) drwy hysbyseb leol am 2 wythnos yn olynol ac yn gyfoes â'r cyfnod hysbysu yn is-baragraff (a).

(5) Mewn achos nad yw paragraff (2) na pharagraff (4) yn gymwys iddo, rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i archiad am gyfarwyddyd gan roi hysbysiad-

- (a) drwy ei arddangos ar y safle mewn un man o leiaf ar neu wrth ymyl y tir y mae'r cais am ganiatâd cynllunio yn ymwneud ag ef am gyfnod nad yw'n llai na 2 wythnos; neu
- (b) drwy gyflwyno'r hysbysiad i unrhyw berchennog neu feddiannydd cyffiniol.

(6) Rhaid i hysbysiad a roddir o dan baragraffau (3), (4) neu (5)-

- (a) nodi bod archiad am gyfarwyddyd wedi'i wneud;
- (b) nodi bod modd cyflwyno i'r awdurdod cyfarwyddo, yn y cyfeiriad a bennir yn yr hysbysiad, sylwadau ysgrifenedig ynghylch a ddylai cyfarwyddyd gael ei roi; a
- (c) pennu'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i unrhyw sylwadau o'r fath gael eu cyflwyno i'r awdurdod cyfarwyddo (sef dyddiad nad yw'n llai na 2 wythnos o'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad).

- (c) would affect a right of way to which Part 3 of the Wildlife and Countryside Act 1981(1) (public rights of way) applies,

the request must be publicised in the manner specified in paragraph (3).

(3) A request falling within paragraph (2) ("a paragraph (2) request") must be publicised by giving notice-

- (a) by site display in at least one place on or near the land to which the application for planning permission relates for not less than 2 weeks; and
- (b) by local advertisement for 2 consecutive weeks contemporaneous with the notice period in sub-paragraph (a).

(4) In the case of a request for a direction which is not a paragraph (2) request, if the proposed development to which the request relates is major development the request must be publicised by giving notice-

- (a) by site display in at least one place on or near the land to which the application relates for not less than 2 weeks or by serving the notice on any adjoining owner or occupier; and
- (b) by local advertisement for 2 consecutive weeks contemporaneous with the notice period in sub-paragraph (a).

(5) In a case to which neither paragraph (2) nor paragraph (4) applies, a request for a direction must be publicised by giving notice-

- (a) by site display in at least one place on or near the land to which the application relates for not less than 2 weeks; or
- (b) by serving the notice on any adjoining owner or occupier.

(6) A notice given under paragraphs (3), (4) or (5) must-

- (a) state that a request for a direction has been made;
- (b) state that written representations as to whether a direction should be given can be made to the directing authority at the address specified in the notice; and
- (c) specify the date by which any such representations must be made to the directing authority (being a date not less than 2 weeks from the date when the notice is given).

(1) 1981 p.69. Gwnaed diwygiadau perthnasol gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, adran 51 ac Atodlen 5, Rhan I.

(1) 1981 c.69. Relevant amendments were made by the Countryside and Rights of Way Act 2000, section 51 and Schedule 5, Part I.



(7) Pan fo'r hysbysiad, heb fod unrhyw fai ar yr awdurdod cyfarwyddo nac unrhyw fwriad ganddo i wneud hynny, wedi'i dynnu ymaith, wedi'i guddio neu wedi'i ddifwyno cyn bod y cyfnod o 2 wythnos y cyfeirir ato ym mharagraff (3)(a), (4)(a)(i) neu (5)(a) wedi treiglo, rhaid ymdrin â'r awdurdod cyfarwyddo fel un sydd wedi cydymffurfio â gofynion y paragraff perthnasol os yw wedi cymryd camau rhesymol i ddiogelu'r hysbysiad ac, os oes angen, i roi hysbysiad newydd yn ei le.

(8) Yn y rheoliad hwn-

mae i'r term "cais Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol" yr ystyr a roddir i "*EIA application*" yn rheoliad 2 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999(1), ac ystyr "datganiad amgylcheddol" ("*environmental statement*") yw datganiad y mae'r ceisydd yn cyfeirio ato fel datganiad amgylcheddol at ddibenion y Rheoliadau hynny;

ystyr "datblygiad gwastraff" ("*waste development*") yw unrhyw ddatblygiad gweithredol a gynlluniwyd i gael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion trin, storio, prosesu neu waredu gwastraff neu ddeunyddiau gwastraff, neu newid defnydd yn sylweddol iddynt;

ystyr "datblygiad mawr" ("*major development*") yw datblygiad sy'n cynnwys unrhyw un neu fwy o'r canlynol-

- (a) cloddio am fwynau a'u gweithio neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion gweithio mwynau;
- (b) datblygiad gwastraff;
- (c) darparu tai annedd-
  - (i) pan fo nifer y tai annedd sydd i'w darparu yn 10 neu fwy; neu
  - (ii) pan fo'r gwaith datblygu i'w gyflawni ar safle y mae ei arwynebedd yn 0.5 hectar neu fwy ac nad yw'n hysbys a yw'r datblygiad yn dod o dan baragraff (c)(i);
- (ch) darparu adeilad neu adeiladau pan fo'r arwynebedd llawr sydd i'w greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu
- (d) gwaith datblygu sy'n cael ei gyflawni ar safle y mae ei arwynebedd yn 1 hectar neu fwy;

ystyr "drwy ei arddangos ar y safle" ("*by site display*") yw drwy osod yr hysbysiad gan ei roi'n sownd i rywbeth, ei leoli a'i arddangos yn y fath fodd ag i beri iddo fod yn hawdd i'w weld a'i ddarllen gan aelodau o'r cyhoedd;

ystyr "drwy hysbyseb leol" ("*by local advertisement*") yw-

- (a) cyhoeddi'r hysbysiad mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn y gymdogaeth y mae'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef wedi'i leoli

(7) Where the notice is, without any fault or intention of the directing authority, removed, obscured or defaced before the period of 2 weeks referred to in paragraph (3)(a), (4)(a)(i) or (5)(a) has elapsed, the directing authority will be treated as having complied with the requirements of the relevant paragraph if it has taken reasonable steps for protection of the notice and, if need be, its replacement.

(8) In this regulation-

"adjoining owner or occupier" ("*perchennog neu feddianydd cyffiniol*") means any owner or occupier of any land adjoining the land to which the application relates;

"dwellinghouse" ("*tŷ annedd*") does not include a building containing one or more flats, or a flat contained within such a building;

"EIA application" ("*cais Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol*") has the meaning given in regulation 2 of the Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (England and Wales) Regulations 1999(1), and "environmental statement" means a statement which the applicant refers to as an environmental statement for the purposes of those Regulations;

"by local advertisement" ("*drwy hysbyseb lleol*") means-

- (a) publication of the notice in a newspaper circulating in the locality in which the land to which the application relates is situated; and
- (b) where the directing authority maintains a website for the purpose of advertising applications, by publication of the notice on that website;

"major development" ("*datblygiad mawr*") means development involving any one or more of the following-

- (a) the winning and working of minerals or the use of land for mineral-working deposits;
- (b) waste development;
- (c) the provision of dwellinghouses where-
  - (i) the number of dwellinghouses to be provided is 10 or more; or
  - (ii) the development is to be carried out on a site having an area of 0.5 hectare or more and it is not known whether the development falls within paragraph (c)(i);
- (d) the provision of a building or buildings where the floor space to be created by the development is 1,000 square metres or more; or
- (e) development carried out on a site having an area of 1 hectare or more;

(1) O.S. 1999/293 y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(1) S.I. 1999/293 to which there are amendments not relevant to this instrument.

ynddi; a

- (b) pan fo'r awdurdod cyfarwyddo yn cynnal gwefan at ddibenion hysbysebu ceisiadau, drwy gyhoeddi hysbysiad ar y wefan honno;

ystyr "perchennog neu feddiannydd cyffiniol" ("*adjoining owner or occupier*") yw unrhyw berchennog neu feddiannydd unrhyw dir sy'n cyffinio â'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef; ac

nid yw "tŷ annedd" ("*dwellinghouse*") yn cynnwys adeilad sy'n cynnwys un neu ragor o fflatiau, na fflat sydd wedi'i gynnwys o fewn adeilad o'r fath.

### Gwybodaeth i'w hanfon at y partïon

7.-(1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i hysbysiad o'r archiad am gyfarwyddyd gael ei roi yn unol â rheoliad 6, rhaid i'r awdurdod cyfarwyddo-

- (a) hysbysu'r cynrychiolydd penodedig yn ysgrifenedig o'r dyddiad y mae rhaid i unrhyw sylwadau ysgrifenedig ynghylch a ddylid rhoi cyfarwyddyd ddod i law'r awdurdod cyfarwyddo (sef dyddiad nad yw'n llai na 6 wythnos o'r dyddiad y mae'r hysbysiad i'r cynrychiolydd penodedig yn cael ei roi); a
- (b) anfon ar yr un pryd gopi o'r hysbysiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) at y parti arall.

(2) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael ei hysbysu gan y cynrychiolydd penodedig bod y cynrychiolydd penodedig wedi derbyn cyfarwyddiadau gan y person yr effeithir arno, rhaid i'r awdurdod cyfarwyddo anfon at y cynrychiolydd penodedig-

- (a) copi o'r archiad am gyfarwyddyd; a
- (b) pan fo'r dystiolaeth gaeedig bosibl yn cynnwys tystiolaeth ddogfennol neu ddatganiad ysgrifenedig o dystiolaeth y person sy'n bwriadu rhoi tystiolaeth lafar, copi o'r dystiolaeth honno.

### Gweithdrefn sylwadau ysgrifenedig

8.-(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn, sylwadau ysgrifenedig y person sy'n gwneud yr archiad am gyfarwyddyd sy'n ffurfio'r archiad am gyfarwyddyd.

(2) Rhaid i'r awdurdod cyfarwyddo, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo gael y sylwadau ysgrifenedig, anfon-

- (a) copi o unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd iddo gan y cynrychiolydd penodedig at y parti arall; a
- (b) copïau o unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd iddo gan bersonau yn unol â rheoliad 6(6)(b) at y partïon.

"by site display" ("*drwy ei arddangos ar y safle*") means by the posting of the notice by firm affixture to some object, sited and displayed in such manner as to be easily visible and legible by members of the public; and

"waste development" ("*datblygiad gwastraff*") means any operational development designed to be used wholly or mainly for the purpose of, or a material change of use to, treating, storing, processing or disposing of refuse or waste materials.

### Information to be sent to the parties

7.-(1) As soon as practicable after notice of the request for a direction has been given in accordance with regulation 6, the directing authority must-

- (a) notify, in writing, the appointed representative of the date by which any written representations as to whether a direction should be given must be received by the directing authority (being a date not less than 6 weeks from the date when the notice to the appointed representative is given); and
- (b) at the same time, send a copy of the notice referred to in sub-paragraph (a) to the other party.

(2) As soon as practicable after being notified by the appointed representative that the appointed representative has taken instructions from the affected person, the directing authority must send to the appointed representative-

- (a) a copy of the request for a direction; and
- (b) where the potentially closed evidence includes documentary evidence or a written statement of evidence of a person who intends to give oral evidence, a copy of that evidence.

### Written representations procedure

8.-(1) For the purposes of these Regulations, the request for a direction comprises the written representations of the person making the request for a direction.

(2) The directing authority must, as soon as practicable after receipt, send-

- (a) a copy of any written representations made to it by the appointed representative to the other party; and
- (b) copies of any written representations made to it by persons pursuant to regulation 6(6)(b) to the parties.

(3) Os yw'r naill barti neu'r llall yn cyflwyno unrhyw sylwadau pellach, rhaid i'r awdurdod cyfarwyddo, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddynt ddod i law, anfon copi ohonynt at y parti arall.

(4) Rhaid i'r awdurdod cyfarwyddo fynd ati i benderfynu ar archiad am gyfarwyddyd gan gymryd i ystyriaeth ddim ond y sylwadau sydd wedi'u cyflwyno o fewn y terfynau amser perthnasol.

(5) Ym mharagraff (4) ystyr "terfynau amser perthnasol" yw'r terfynau amser a ragnodir gan reoliadau 6(6)(c) a 7(1)(a) neu, pan fo'r awdurdod cyfarwyddo wedi arfer ei bŵer o dan reoliad 14, unrhyw derfyn amser diweddarach.

### **Penderfyniad i gynnal gwrandawriad a dyddiad y gwrandawriad**

9.-(1) Pan fo'r awdurdod cyfarwyddo o'r farn y gellid datrys un neu ragor o faterion ynglŷn â'r archiad yn fwy boddhaol drwy gynnal gwrandawriad y byddai'r partïon yn bresennol ynddo, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig yn unol â hynny i'r partïon.

(2) Rhaid i'r dyddiad a bennir gan yr awdurdod cyfarwyddo ar gyfer cynnal gwrandawriad beidio â bod yn hwyrach na 6 wythnos ar ôl dyddiad yr hysbysiad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (1).

(3) Oni fydd yr awdurdod cyfarwyddo yn cytuno gyda'r partïon ar gyfnod hysbysu llai, rhaid iddo roi iddynt ddim llai na 2 wythnos o hysbysiad ysgrifenedig o'r dyddiad, yr amser a'r lle a bennwyd ganddo ar gyfer cynnal y gwrandawriad.

(4) Caiff yr awdurdod cyfarwyddo amrywio'r dyddiad a bennir ar gyfer cynnal y gwrandawriad, p'un a yw'r dyddiad a amrywir o fewn y cyfnod o 6 wythnos a grybwyllwyd ym mharagraff (2) neu beidio; ac mae paragraff (3) yn gymwys i amrywiad o ran dyddiad yn yr un modd ag yr oedd yn gymwys i'r dyddiad a bennwyd yn wreiddiol.

(5) Caiff yr awdurdod cyfarwyddo amrywio'r amser neu'r lle ar gyfer cynnal gwrandawriad a rhaid iddo roi i'r partïon yr hysbysiad hwnnw y mae'n ymddangos iddo ei fod yn rhesymol o unrhyw amrywiad.

### **Y weithdrefn ar gyfer gwrandawriad**

10.-(1) Oni ddarperir fel arall yn y Rheoliadau hyn, rhaid i'r awdurdod cyfarwyddo benderfynu'r weithdrefn mewn gwrandawriad.

(2) Rhaid i'r gwrandawriad fod ar ffurf trafodaeth sy'n cael ei harwain gan yr awdurdod cyfarwyddo a chaniateir croesholi os yw'r awdurdod cyfarwyddo o'r farn ei fod yn angenrheidiol i sicrhau archwiliad trylwyr o'r prif faterion.

(3) Ar ddechrau'r gwrandawriad rhaid i'r awdurdod cyfarwyddo nodi beth, yn ei farn ef, yw'r prif faterion sydd i'w hystyried yn y gwrandawriad a nodi unrhyw

(3) If either party makes any further representations, the directing authority must, as soon as practicable after receipt, send a copy of the further representations to the other party.

(4) The directing authority must proceed to a decision on a request for a direction taking into account only such representations as have been submitted within the relevant time limits.

(5) In paragraph (4) "relevant time limits" means the time limits prescribed by regulations 6(6)(c) and 7(1)(a) or, where the directing authority has exercised its power under regulation 11, any later time limit.

### **Decision to hold a hearing and date of hearing**

9.-(1) Where the directing authority considers that one or more matters relating to the request would be more satisfactorily resolved by holding a hearing attended by the parties, it must give the parties written notice accordingly.

(2) The date fixed by the directing authority for the holding of a hearing must be not later than 6 weeks after the date of the notice referred to in paragraph (1).

(3) Unless the directing authority agrees a lesser period of notice with the parties, it must give to them not less than 2 weeks' written notice of the date, time and place fixed by it for the holding of the hearing.

(4) The directing authority may vary the date fixed for the holding of the hearing, whether or not the date as varied is within the period of 6 weeks mentioned in paragraph (2); and paragraph (3) applies to a variation of a date as it applied to the date originally fixed.

(5) The directing authority may vary the time or place for the holding of a hearing and must give the parties such notice of any variation as appears to it to be reasonable.

### **Hearing procedure**

10.-(1) Except as otherwise provided in these Regulations, the directing authority must determine the procedure at a hearing.

(2) A hearing must take the form of a discussion led by the directing authority and cross-examination will be permitted if the directing authority considers it necessary to ensure a thorough examination of the main issues.

(3) At the start of the hearing the directing authority must identify what are, in its opinion, the main issues to be considered at the hearing and any matters on

faterion y bydd angen iddo gael esboniad pellach arnynt gan y partïon.

(4) Nid oes dim ym mharagraff (3) sy'n atal y partïon rhag cyfeirio at faterion y maent yn credu eu bod yn berthnasol i'r broses o ystyried yr archiad am gyfarwyddyd ond nad oeddent yn faterion a nodwyd gan yr awdurdod cyfarwyddo yn unol â'r paragraff hwnnw.

(5) Caiff yr awdurdod cyfarwyddo-

- (a) mynd yn ei flaen i gynnal gwrandawriad yn absenoldeb unrhyw barti;
- (b) cymryd i ystyriaeth unrhyw sylw ysgrifenedig neu dystiolaeth ysgrifenedig neu unrhyw ddogfen arall y mae wedi'i chael oddi wrth unrhyw berson cyn bod gwrandawriad yn agor neu yn ystod y gwrandawriad ar yr amod bod yr awdurdod cyfarwyddo yn ei ddatgelu neu ei datgelu yn y gwrandawriad; ac
- (c) o bryd i'w gilydd ohirio gwrandawriad ac, os cyhoeddir dyddiad, amser a lle'r gwrandawriad sy'n cael ei ohirio yn y gwrandawriad cyn y gohiriad, ni fydd angen hysbysiad pellach.

(6) Pan fydd yn gwneud ei benderfyniad, caiff yr awdurdod cyfarwyddo anwybyddu unrhyw sylwadau ysgrifenedig, dystiolaeth neu ddogfen arall sy'n dod i law ar ôl diwedd y gwrandawriad.

### **Amser ychwanegol**

11. Ar unrhyw adeg mewn unrhyw achos penodol caiff yr awdurdod cyfarwyddo ganiatáu amser ychwanegol ar gyfer cymryd unrhyw gam sy'n ofynnol ei gymryd neu y galluogir ei gymryd yn rhinwedd y Rheoliadau hyn, a dehonglir yn unol â hynny gyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at ddiwrnod erbyn pryd, neu gyfnod o fewn pryd, y mae'n ofynnol cymryd unrhyw gam neu y galluogir ei gymryd.

### **Hysbysiadau drwy'r post**

12. Caniateir i hysbysiadau neu ddogfennau y mae'n ofynnol neu yr awdurdodir eu hanfon o dan y Rheoliadau hyn gael eu hanfon neu eu darparu-

- (a) drwy'r post; neu
- (b) drwy ddefnyddio cyfathrebu electronig i anfon neu i ddarparu'r hysbysiad neu'r ddogfen (yn ôl y digwydd) at berson yn unrhyw gyfeiriad a bennir am y tro gan y person at y diben hwnnw.

### **Tynnu'n ôl gydsyniad i ddefnyddio cyfathrebu electronig**

13. Pan na fo person bellach yn fodlon derbyn defnyddio cyfathrebu electronig at unrhyw ddiben o dan y Rheoliadau hyn y gellir ei gyflawni'n electronig, rhaid i'r person roi hysbysiad ysgrifenedig-

which it requires further explanation from the parties.

(4) Nothing in paragraph (3) precludes the parties from referring to issues which they consider relevant to the consideration of the request for a direction but which were not issues identified by the directing authority pursuant to that paragraph.

(5) The directing authority may-

- (a) proceed with a hearing in the absence of any party;
- (b) take into account any written representation or evidence or any other document received by it from any person before a hearing opens or during the hearing provided that the directing authority discloses it at the hearing; and
- (c) from time to time adjourn a hearing and, if the date, time and place of the adjourned hearing are announced at the hearing before the adjournment, no further notice is required.

(6) When making its determination the directing authority may disregard any written representations, evidence or other document received after the end of the hearing.

### **Further time**

11. The directing authority may at any time in any particular case allow further time for the taking of any step which is required or enabled to be taken by virtue of these Regulations and references in these Regulations to a day by which, or a period within which any step is required or enabled to be taken, will be construed accordingly.

### **Notices by post**

12. Notices or documents required or authorised to be sent under these Regulations may be sent or supplied-

- (a) by post; or
- (b) by using electronic communications to send or supply the notice or document (as the case may be) to a person at such an address as may be for the time being specified by the person for that purpose.

### **Withdrawal of consent to use of electronic communications**

13. Where a person is no longer willing to accept the use of electronic communications for any purpose under these Regulations which is capable of being effected electronically, the person must give notice in writing-

- (a) yn tynnu'n ôl unrhyw gyfeiriad yr hysbyswyd yr awdurdod cyfarwyddo ohono at y diben hwnnw; neu
- (b) yn dirymu unrhyw gytundeb a wnaed gyda'r awdurdod cyfarwyddo at y diben hwnnw,

a bydd y cam hwnnw o dynnu'n ôl neu ddirymu yn derfynol a daw yn weithredol ar ddyddiad a bennir gan y person yn yr hysbysiad ond heb fod yn llai na 7 niwrnod ar ôl y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad.

### **Hysbysu o benderfyniad**

14.-(1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl penderfynu a ddylid rhoi cyfarwyddyd neu beidio, rhaid i'r awdurdod cyfarwyddo hysbysu unrhyw berson a gyflwynodd sylwadau iddo mewn perthynas â'r cyfarwyddyd o'i benderfyniad; ond nid oes dim yn y paragraff hwn sy'n ei gwneud yn ofynnol neu sy'n caniatáu i'r awdurdod cynorthwyo roi rhesymau dros ei benderfyniad, os byddai rhoi rhesymau yn arwain at ddatgeliad cyhoeddus o dystiolaeth gaeedig.

(2) Pan fo cyfarwyddyd yn cael ei roi, rhaid i'r awdurdod cyfarwyddo anfon, yr un pryd ag y bydd yn hysbysu o'i benderfyniad yn unol â pharagraff (1), gopi o'r cyfarwyddyd at y cynrychiolydd penodedig a'r person a wnaeth archiad am y cyfarwyddyd.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

23 Mai 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

- (a) withdrawing any address notified to the directing authority for that purpose; or
- (b) revoking any agreement entered into with the directing authority for that purpose,

and such withdrawal or revocation will be final and will take effect on a date specified by the person in the notice but not less than 7 days after the date on which the notice is given.

### **Notification of decision**

14.-(1) As soon as practicable after determining whether or not to make a direction the directing authority must notify its decision to any person who made representations to it in relation to the direction; but nothing in this paragraph requires or permits the directing authority to give reasons for its decision, where the giving of reasons would result in the public disclosure of closed evidence.

(2) Where a direction is given the directing authority must, at the same time as notifying its decision in accordance with paragraph (1), send a copy of the direction to the appointed representative and the person who requested the direction.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

23 May 2006

The Presiding Officer of the National Assembly

*D. Elis-Thomas*

---

(1) 1998 p.38.

---

(1) 1998 c.38.



---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2006 Rhif 1387 (Cy.137)**

**CYNLLUNIO GWLAD A  
THREFF, CYMRU**

Rheoliadau Cynllunio  
(Cyfarwyddiadau Diogelwch  
Gwladol a Chynrychiolwyr  
Penodedig) (Cymru) 2006

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2006 No. 1387 (W.137)**

**TOWN AND COUNTRY  
PLANNING, WALES**

The Planning (National Security  
Directions and Appointed  
Representatives) (Wales)  
Regulations 2006

© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W347/06/06

ON